

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 6
Gorffennaf 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 12 GORFFENNAF 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM
9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

hybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 17 Mai 2018 (copi ynghlwm).

10.05am – 10.10am

5 YMDDIRIEDOLAETH GWASANAETH AMBIWLANS CYMRU A GWASANAETH MEDDYG TEULU TU ALLAN I ORIAU

Derbyn cyflwyniad ar y cyd gan gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a Gwasanaeth Meddyg Teulu Tu allan i Oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar eu perfformiad a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd er mwyn gwella llwybr gofal ar gyfer cleifion.

10.10am – 11.10am

EGWYL 11.10am - 11.20am

6 MYNWENTYDD CYNGOR SIR DDINBYCH (Tudalennau 17 - 56)

Ystyried adroddiad ar y cyd rhwng Rheolwr Uned Gwaith a Strydwedd a Rheolwr Strydwedd (Gogledd) (copi ynghlwm) sy'n hysbysu aelodau o gymhwysedd gweddilliol o fewn mynwentydd y cyngor, ac yn amlinellu ardaloedd sydd mewn perygl o ran capasati claddu yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am farn yr aelodau am gynyddu cost mynwentydd, ac yn amlinellu trefn cynnal a chadw presennol (a pholisïau rheoli) ar gyfer holl fynwentydd a reolir gan y cyngor.

11:20 am - 12:00pm

7 RHAGLAN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 57 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12pm – 12.15pm

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Derbyn diweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

12.15pm – 12.30pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Brian Blakeley
Meirick Davies
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Code of Conduct for Members

DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, *(name)*

a *member/co-opted member of
*(*please delete as appropriate)*

Denbighshire County Council

CONFIRM that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

*(See the note below)**

Signed

Date

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Iau, 17 Mai 2018 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Arsylwyr – Y Cyngorydd Tony Thomas a'r Cyngorydd Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (NS), Prif Gyfrifydd (SG), Rheolwr Contractau a Pherfformiad (PB), Rheolwr Prosiect Contractau a Pherfformiad (RT), Prif Swyddog Gweithredol Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych (LP), Rheolwr Partneriaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (KG), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd (MJ), Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau (PM), Prif Beiriannydd – Rheoli Traffig (PL), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

CROESO

Gwnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod a mynegodd groeso arbennig i Lesley Powell, Prif Swyddog Gweithredol Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a Katie Goodwin, Rheolwr Partneriaethau Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn bresennol ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen - Credyd Cynhwysol.

1 YMDDIHEURIADAU

Rhoddodd yr Arweinydd, y Cyngorydd Hugh Evans ymddiheuriadau fel Aelod Arweiniol ar gyfer eitem 7 – Strategaeth Arwyddion Twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Merfyn Parry gysylltiad personol ag eitem 6 ar y rhaglen - Credyd Cynhwysol.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebwyd ac eiliwyd Cyngorydd Graham Timms ar gyfer rôl Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Ni dderbyniwyd enwebiadau eraill ac felly:

PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd Graham Timms yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/2019.

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth.

Materion yn codi -

Tudalen 12 – Eitem 6 ar y Rhaglen – Adroddiad Diweddar Rheoli Gwylanod – Cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu nad oedd gohebiaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn gofyn am wybodaeth o ran niferoedd unigolion a oedd wedi mynychu Ysbytai Lleol wedi cynnwys nifer yr unigolion a oedd wedi mynychu meddygfeydd Meddygon Teulu. Byddai'r dasg i gasglu ffigurau pob meddygfa meddyg teulu yn fawr.

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

6 CREDYD CYNHWYSOL

Gwnaeth yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol gyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Prosiect Contractau a Pherfformiad: Cyllid (dosbarthwyd eisoes) a oedd yn amlinellu effaith debygol cyflwyniad diweddar Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar wasanaethau'r Cyngor a phreswylwyr y sir, a'r gwaith cynllunio a pharatoi a wnaed hyd yma gan y Cyngor a'i bartneriaid ar gyfer effaith bosibl ei gyflwyno. Cyn egluro cynnwys yr adroddiad, cyflwynodd yr Aelod Arweiniol swyddogion y Cyngor a oedd yn bresennol ynghyd â'r cynrychiolwyr o'r sefydliadau partner allweddol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, ac roedd yr awdurdod wedi bod yn gweithio'n agos gyda nhw gyda'r bwriad o reoli effaith Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol yn y sir. Yn ystod ei gyflwyniad, dywedodd yr Aelod Arweiniol, er bod y rhan fwyaf o Sir Ddinbych wedi ffurfio rhan o gyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol a ddechreuodd ym mis Ebrill 2018, gan ei fod yn cael ei wasanaethu gan Ganolfan Waith y Rhyl, roedd preswylwyr yn rhan ddeheuol y sir wedi bod yn destun Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol o fis Hydref 2017 gan fod eu Canolfan Waith leol yn Wrecsam, ac roedd rhai a oedd yn byw ar gyrion gorllewin yn y sir yn mynd rai wythnosau'n ddiweddarach gan fod Canolfan Waith Llandudno yn effeithio arnynt.

Dywedwyd wrth Aelodau fod cyflwyno Credyd Cynhwysol yn ffurfio rhan o raglen Llywodraeth y DU o ddiwygio lles. Roedd yn fudd-dal a oedd yn seiliedig ar brawf modd, wedi'i weinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a oedd ar gael i bobl oedran gweithio ar incwm isel, naill ai mewn gwaith neu allan o waith. Roedd y budd-dal newydd yn disodli'r chwe phrif fudd-dal neu gredydau treth a oedd ar gael i bobl oedran gweithio a'u cyfuno yn un taliad aelwyd sengl bob mis. Gan fod yn

ymwybodol o oblygiadau posibl cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar breswylwyr a gwasanaethau'r Cyngor fel ei gilydd, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Credyd Cynhwysol ym mis Gorffennaf 2017. Pwrpas y Bwrdd, a oedd yn cynnwys swyddogion o amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor a budd-ddeiliaid partner allweddol, h.y. yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, oedd datblygu dull corfforaethol o ddarparu cefnogaeth a chynghor i breswylwyr a oedd wedi'u heffeithio gan y newidiadau i sicrhau nad oeddent yn methu allan ar eu hawl i fudd-daliadau neu unrhyw hawliau cysylltiedig, h.y. Prydau Ysgol Am Ddim ac ati. Fel rhan o gynllunio ar gyfer cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol yn y sir, roedd swyddogion wedi cysylltu'n agos gydag awdurdodau eraill, fel Sir y Fflint, lle roedd Gwasanaethau Llawn Credyd Cynhwysol wedi'u cyflwyno yn gynharach gyda bwriad o ddysgu o'u profiadau a chasglu arfer da.

Eglurodd swyddogion y Cyngor a oedd yn bresennol wrth y Pwyllgor y mesurau a weithredwyd hyd yma mewn cais i liniaru effeithiau cyflwyno'r budd-dal ar breswylwyr ac ar wasanaethau'r Cyngor, gan ddangos y cysylltiadau rhwng gwaith amrywiaeth o grwpiau a budd-ddeiliaid. Gwnaethant amlinellu'r risgiau a nodwyd o ran ei gyflwyno a'r camau gweithredu lliniaru a anogwyd i reoli'r risgiau hynny (fel a nodir yn Atodiad 3) a'r amrywiaeth o gyfathrebu a oedd wedi'u rhoi i breswylwyr a budd-ddeiliaid yn ystod yr amser a oedd yn arwain at gyflwyno'r budd-dal ac wedi hynny (Atodiad 5). Gyda bwriad o ddarparu gwasanaeth di-dor a dull amlasiantaeth, mae gan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a'r Cyngor staff yng Nghanolfan Gwaith y Rhyl i ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth a chynghor i'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol gan gynnwys cynghor am gyllidebu a chynghor tai, atal digartrefedd a mynediad i hawliau eraill sydd ar gael gan y Cyngor. Roedd y Cyngor hefyd wedi gwella ei broses atgyfeirio i Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, roedd yn atgyfeirio cleientiaid posibl yn ddigidol nawr. Yn ogystal, roedd dau fideo wedi'u cynhyrchu ac roeddent ar gael ar dudalen we Credyd Cynhwysol gwefan y Cyngor, a'r pwrpas oedd cyfeirio preswylwyr at le roedd cynghor a help ar gael iddynt, h.y. cefnogaeth ddigidol o'r Llyfrgelloedd a chynghor a chefnogaeth cyllidebu gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Dywedodd Swyddogion fod staff rheng flaen ym mhob gwasanaeth wedi ymgysylltu'n dda gyda'r sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth a roddwyd ar Gredyd Cynhwysol ac roedd wedi llunio rhai datrysiadau defnyddiol er mwyn cryfhau a gwella gwasanaethau i rai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau y byddai gan unigolion Credyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych fynediad i gefnogaeth leol a ddarperir gan y Cyngor, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a'r Adran Gwaith a Phensiynau ac yn eu Canolfan Gwasanaeth Adran Gwaith a Phensiynau ym Mangor lle roedd tîm pwrpasol ar gyfer preswylwyr Sir Ddinbych.

Roedd crynodeb wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 o'r mesurau a gymerwyd hyd yma gan nifer o wasanaethau a phartneriaid allweddol y Cyngor i baratoi ar gyfer effaith lansio Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar eu gwasanaethau ynghyd â throsolwg o'r effaith ar y gwasanaethau hynny hyd yma yn dilyn ei gyflwyno. Eglurodd Rheolwr Partneriaethau yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer yr ardal sirol a wasanaethir gan Ganolfan Waith y Rhyl, y mesurau diogelu a roddwyd ar waith mewn cais i gefnogi pobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol rhag mynd ar ei hôl hi gyda thaliadau penodol neu beidio manteisio ar eu hawliau i gyd. Gyda chyflwyno Credyd Cynhwysol, byddai costau tai yn cael eu talu i'r hawlydd ac nid yn uniongyrchol i'r landlord fel a oedd yn bosibl mewn rhai achosion o'r blaen, fodd bynnag gellid trefnu

taliadau a reolir i'r landlord pe bai amgylchiadau'r unigolyn yn cyfiawnhau hyn. Roedd y Ganolfan Waith wedi penodi Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid yn ddiweddar a fyddai i'w weld yn y Ganolfan Waith bob amser a byddai'n creu awyrgylch croesawgar a chefnogol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo hefyd gyda phartneriaid cymunedol gyda bwriad o wella dealltwriaeth staff o'r rhwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth iddynt chwilio am waith, e.e. problemau iechyd fel cyfyngiadau cyhyrsgerbydol, materion iechyd meddwl, awtistiaeth ac ati. Roedd gwasanaeth Rhadffôn wedi'i sefydlu yn ddiweddar i alluogi pobl i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau heb orfod talu a gellid trefnu taliadau o flaen llaw i'r rhai a oedd yn profi caledi ariannol ar ddechrau eu cyfnod hawl i fudd-dal Credyd Cynhwysol.

Manylodd Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych ar fathau o wasanaethau roeddent yn eu cynnig i breswylwyr o ran Credyd Cynhwysol. Wrth ragweld cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol i ardaloedd deheuol y sir yn ystod yr hydref 2017, roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych wedi sefydlu gwasanaeth cefnogi gwledig. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaeth estynedig yn y llyfrgell yn Llangollen, a oedd yn cynnwys cyfleusterau Skype. Roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych hefyd yn darparu gwasanaethau o Ganolfan Ni yng Nghorwen i'r dref a'r 8 pentref cyfagos yn ardal Edeyrnion. Er ei bod yn bosibl bod y math o gefnogaeth a gwasanaethau yn wahanol yn yr ardaloedd mwy trefol yng ngogledd y sir i'r rhai yn ardal wledig de'r sir, roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn dal i ddarparu cefnogaeth a chyngor Credyd Cynhwysol o leoliadau o bell yn llyfrgelloedd Llanelwy a Rhuddlan yn dilyn cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ym mis Ebrill yn ogystal â'u darparu o'i swyddfeydd ei hun yn yr ardal. Rhagwelwyd y byddai gwasanaeth o bell ychwanegol yn cael ei ddarparu o Ganolfan Gymunedol Bodolwyddan o fis Gorffennaf 2018. Roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn darparu cefnogaeth gyllidebu bersonol i hawlwyr i geisio eu helpu i gynyddu buddion ariannol ar gyfer yr unigolyn, boed o fudd-daliadau neu hawliau'r wlad neu yswiriant neu gyllid preifat y gallent fod â hwy eu hunain ond na fyddent yn ystyried cael mynediad iddynt. Byddai pob hawlydd newydd yn cael ei atgyfeirio'n awtomatig o'r Ganolfan Waith i Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych am gyfnod cychwynnol gyda bwriad o sicrhau nad ydynt yn mynd i ddyled nad oes modd ei reoli. Cadarnhawyd, ers i'r Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno i'r rhan fwyaf o Sir Ddinbych ym mis Ebrill 2018, roedd wyth cleient wedi'u cyfeirio o Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i'w Dîm Dyledion i gael cefnogaeth gyllidebol ychwanegol. Roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn peilota cynllun ar hyn o bryd gyda Chanolan Waith y Rhyl, i helpu hawlwyr Credyd Cynhwysol i reoli cyfnod cychwynnol eu hawliad a rheoli taliadau o flaen llaw.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol, swyddogion y Cyngor, a chynrychiolwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych:

- nid oedd y budd-dal Taliad Annibyniaeth Bersonol yn ffurfio rhan o Gredyd Cynhwysol;
- nod Credyd Cynhwysol oedd cefnogi pobl i fod yn bersonol gyfrifol am reoli eu cyllid eu hunain a pharatoi ar gyfer byd gwaith;
- roedd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych swyddogion a allai ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain os oedd amgylchiadau wedi golygu bod angen ymweliad cartref;

- gallai naill ai'r hawlydd neu'r landlord ofyn am 'daliad a reolir' ar gyfer elfen tai Credyd Cynhwysol. Gellid gwneud cais os oedd taliad rhent wedi'i fethu ar ddau achlysur ar ôl ei gilydd;
- roedd 'taliadau a reolir' o ran costau tai a swm unrhyw daliadau o flaen llaw o ran Credyd Cynhwysol, a'r cyfraddau ad-dalu cysylltiedig yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth cyngor cyllidebu personol roedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn ei ddarparu i hawlwyd Credyd Cynhwysol. I sicrhau bod modd rheoli ad-dalu unrhyw daliadau o flaen llaw, gallai hawlwyd gael hyd at ddeuddeg mis i ad-dalu'r taliad o flaen llaw a gafwyd.
- hyd yma roedd tua 400 o bobl wedi hawlio Credyd Cynhwysol o Ganolfan Waith y Rhyl, roedd rhain yn naill ai hawlwyd newydd neu hawlwyd presennol a oedd wedi profi newid sylweddol o ran amgylchiadau ers i Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno yn y sir. Roedd pobl a oedd eisoes yn cael budd-daliadau penodol ar sail prawf modd nad oeddent wedi profi newid sylweddol o ran amgylchiadau, yn dal i gael y budd-daliadau hynny, nes i'w hamgylchiadau newid neu nes i'r broses fudo a reolir i Credyd Cynhwysol ddechrau. Roedd dyddiad pendant ar gyfer mudo hawlwyd presennol i Credyd Cynhwysol yn dal i gael ei aros. Rhagwelwyd bod disgwyl i fudo hawlwyd presennol i Credyd Cynhwysol yn y DU ddechrau yn ystod mis Gorffennaf 2019 a'i gwblhau erbyn 2022. Erbyn diwedd y broses fudo, gallai amcangyfrif bras o tua 14,000 o bobl yn Sir Ddinbych fod yn hawlio Credyd Cynhwysol er bod ffigurau yn anodd iawn i'w rhagweld;
- byddai'r swyddog 'Hyfforddwr Gwaith' a oedd yn seiliedig yn y Ganolfan Waith, yn amlygu i'r hawlydd unrhyw hawl posibl i fudd-daliadau neu gymorth arall sydd ar gael fel mater o drefn, h.y. prydu ysgol am ddim a gostyngiad treth y cyngor. Roedd staff Adran Tai y Cyngor a staff Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cael gwybod am yr angen i ofyn i denantiaid a oedd yn hawlio neu'n cael Credyd Cynhwysol a oeddent wedi hawlio Gostyngiad Treth y Cyngor a Phrydau Ysgol am Ddim;
- roedd swyddogion y cyngor wedi briffio staff mewn cyfarfodydd clwstwr staff ar gyflwyno Credyd Cynhwysol a'i effaith bosibl ar ddisgyblion a chyllidebau ysgol gyda bwriad o godi ymwybyddiaeth a gofyn am eu cymorth wrth gyfeirio rhieni at Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i gael cyngor cyllidebu personol;
- o ran y costau i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol, roedd rhagor o ddarpariaeth wedi'i wneud yng nghyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer effaith ei gyflwyno. Fodd bynnag, roedd y grant gweinyddu Budd-dal Tai a delir gan lywodraeth ganolog i'r Cyngor wedi lleihau ac roedd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Adran Gwaith a Phensiynau bellach, ond nid oedd y llwyth gwaith ar gyfer y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a weithredir gan Civica wedi gostwng, felly ar gyfer y dyfodol agos, dylai lefelau staffio yn y Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau aros ar lefelau presennol. Roedd staff ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac mewn sefydliadau partner wedi gwneud y gwaith sy'n gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol yn barod i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu cefnogi lle bo'n bosibl. Gan ragweld pwysau posibl ar y gyllideb a achosir gan gyflwyno Credyd Cynhwysol, roedd y Cyngor wedi neilltuo £350K yn benodol ar gyfer y diben hwn ac roedd ganddo hefyd £450K mewn Cronfa Wrth Gefn Hawliau Lles. Gofynnwyd i bob gwasanaeth asesu unrhyw bwysau gallant eu rhagweld yn effeithio ar eu gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol, ac roedd swyddogion yn ffyddiog y

gellid rheoli'r rhain gyda'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau a gedwir yn gorfforaethol;

- byddai ymgyrch i sicrhau bod pob teulu a oedd yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn manteisio ar eu hawliau hefyd o fudd i'r Cyngor, gan fod hawl am Brydau Ysgol am Ddim yn bwydo i hawl Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion unigol a oedd wedyn wedi'i adlewyrchu yn setliad Grant Cynnal Refeniw y Cyngor. Roedd hawliadau am Brydau Ysgol am Ddim yn cael eu cyflwyno a'u prosesu gan y Cyngor;
- roedd pob partner yn monitro gwybodaeth am sut a phryd byddai hawlwr budd-daliadau ar sail prawf modd yn cael eu mudo i Gredyd Cynhwysol gyda bwriad o baratoi ar gyfer y mudo a'i effaith ar wasanaethau ac unrhyw gefnogaeth allai fod ei hangen ar unigolion. Nododd cynrychiolydd yr Adran Gwaith a Phensiynau fod y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant wedi cyhoeddi ystadegau fod tua 7,200 o bobl yn y sir yn cael Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio ar hyn o bryd ac felly mewn gwaith, o ganlyniad, mae'n bosibl na fydd mudo'r achosion hynny i Gredyd Cynhwysol yn golygu unrhyw gefnogaeth ddwys;
- roedd y perygl na fydd arian costau tai yn cael ei drosglwyddo i landlordiaid preifat gan denantiaid wedi'i gynnwys ar y 'gofrestr risg'. I liniaru yn erbyn y risg hon, roedd Llywodraeth y DU, fel rhan o'i ddatganiad y gyllideb hydref diwethaf, wedi gwneud newidiadau i'r broses caniatâd ar gyfer taliadau a reolir, tra yn lleol, roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Cyngor wedi bod yn amlygu'r newidiadau yn y system budd-daliadau lles i landlordiaid, fforymau landlordiaid preifat, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a 'Rhentu Doeth Cymru';
- er na allai aelodau etholedig arsylwi hawlydd yn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol fel mater o drefn, gallant eistedd i mewn ar gyfweiliad Credyd Cynhwysol gyda chaniatâd yr hawlydd;
- nid oedd angen teithio pellteroedd gormodol bellach er mwyn cynnal hawliad Credyd Cynhwysol. Er bod y cyfweiliad dechreuol yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Waith, gellid cysylltu â'r 'Hyfforddwr Gwaith' ac ati wedi hynny dros y ffôn, Skype ac ati. Roedd cefnogaeth ddigidol ar gael yn y Llyfrgelloedd ac roedd ystafelloedd digidol yn Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a oedd ar gael i hawlwr eu defnyddio. Byddai Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn fodlon edrych ar ddefnydd posibl gwasanaeth Negeseua Facebook yn ogystal â Skype. Byddai perthynas yr hawlydd gyda'i Hyfforddwr Gwaith yn allweddol er mwyn iddynt gael mynediad i'r holl wasanaethau a chefnogaeth oedd eu hangen arnynt i fanteisio ar eu hawliadau ac i sicrhau gwaith;
- Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gyfrifol am sicrhau diogelwch data o ran gwybodaeth bersonol a gedwir am bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau. Yn lleol, byddai cyngor am ddiogelwch digidol yn cael ei ddarparu i unigolion fel rhan o'r pecyn cefnogaeth a gynigir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid i hawlwr;
- gan fod 98% o gyflogwyr yn y DU yn defnyddio system Cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE) Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, byddai amrywiadau o ran enillion yn bwydo'n awtomatig i'r Adran Gwaith a Phensiynau, fodd bynnag byddai'r rhai sy'n gweithio ar gyfer y 2% o gyflogwyr bach yn cael negeseuon atgoffa awtomatig i'w hatgoffa i roi gwybod am newidiadau o ran enillion i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Nid oedd y rheol gweithio 16 awr yn bodoli bellach gyda chyflwyno Credyd Cynhwysol, roedd cymhwysedd yn seiliedig ar enillion bellach;

- nododd Prif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych y gellid dadlau bod y dull a gymerwyd yn Sir Ddinbych gan y Cyngor a'i bartneriaid i gynllunio ar gyfer cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol a lliniaru effaith ei gyflwyno ar wasanaethau a phreswylwyr, yn unigryw ac roedd fel pe bai wedi gweithio'n dda. Roedd ardaloedd eraill a oedd yn aros iddo gael ei gyflwyno wedi cymryd diddordeb brwd yn y dull a gymerwyd yn Sir Ddinbych. Yn genedlaethol, roedd y Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed yn Sir Ddinbych a rhan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn y gwaith, y dull rhagweithiol a gymerwyd yn ogystal ag arfer gorau a oedd wedi dod i'r amlwg a oedd wedi'i rannu gyda nhw.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor bod eu llongyfarchiadau a'i gwerthfawrogiad yn cael eu cyfleu i bob partner a oedd yn rhan o'r dull rhagweithiol a gymerwyd i reoli effaith cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych, ac am y gefnogaeth a'r cyngor a ddarparwyd hyd yma. Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad:

Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod

- (i) ***parhau i gefnogi gwaith parhaus y Bwrdd Credyd Cynhwysol i ddeall a rheoli'r effeithiau ar wasanaethau'r Cyngor a phreswylwyr Sir Ddinbych o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol; ac***
- (ii) ***os nad yw pryderon yn haeddu ystyriaeth gynharach, gofyn bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen deuddeg mis ar effaith cyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar breswylwyr a gwasanaethau'r Cyngor, a bod yr adroddiad yn cynnwys manylion am unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cyflwyno dechreuol, a throsolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i liniaru'r effaith ar y Cyngor a phreswylwyr o ganlyniad i fudo derbynwyr budd-daliadau presennol i Gredyd Cynhwysol maes o law.***

Ar y pwynt hwn (11:20 a.m.) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11:35 a.m.

7 STRATEGAETH ARWYDDION TWRISTIAETH AR GYFER SIR DDINBYCH

Yn absenoldeb yr Arweinydd, cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) adroddiad ar y cyd gan Reolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd y Cyngor, a'r Arweinydd Tîm: Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau (a ddsbarthwyd eisoes) a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am ddatblygiad dechreuol strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych. Rhoddodd friff i aelodau am gefndir y prosiect ac eglurodd, pan fyddai'r arwyddion twristiaeth 'brown' wedi'u codi ar ochr yr A55 i gyfeirio ymwelwyr i Rhuddlan, Llanelwy a Dinbych, byddai angen arwyddion eraill i'w cyfeirio i atyniadau eraill ar draws y sir. Barn Aelodau Arweiniol a swyddogion oedd fod codi'r arwyddion ar yr A55 a chyflwyno menter dwristiaeth Llywodraeth Cymru (LIC) 'Ffordd Cymru' (ynghlwm wrth atodiad C yr adroddiad) a oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo tri llwybr

twristiaeth craidd yn y sir, yn darparu cyfle delfrydol i'r Cyngor ei hun ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych a oedd yn ategu arwyddion yr A55 a gweledigaeth LIC, wrth ddatblygu economïau trefol a gwledig y sir. Yn ogystal â gweithio gyda cynghorau tref a chymuned, twristiaeth a busnesau eraill i ddatblygu a darparu arwyddion 'traddodiadol', byddai hefyd yn ddoeth cynyddu portholion gwybodaeth ddigidol a chyfleoedd busnes, fel 'i-beacons'.

Dywedodd swyddogion fod awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi cyflwyno cynnig ar y cyd llwyddiannus dan brosiect 'Ffordd Cymru' i ddatblygu twristiaeth y gaeaf yn y rhanbarth. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda busnesau lleol ar draws y rhanbarth gyda bwriad o'u hymgysylltu gyda phrosiect a fyddai'n gweld busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ar agor drwy'r flwyddyn ac yn ffynnu, beth bynnag yw'r tymor. Er bod technoleg yn datblygu bob dydd, roedd arwyddion ochr ffordd yn dal yn ffordd bwysig o dynnu sylw twristiaid at atyniadau, roedd gwybodaeth ddigidol yn ategol at arwyddion.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- roedd gweithredwyr twristiaeth fel arfer yn talu am arwyddion 'brown', ond roedd y Cyngor fel arfer yn talu am unrhyw gostau cynnal a chadw ar eu cyfer, er nad oedd ganddynt gyllideb benodol ar gyfer costau cynnal a chadw'r arwyddion;
- gallai'r gweithgor aelodau etholedig a swyddogion arfaethedig weithio allan manylion llwybrau twristiaid a ffefrir a rhai amgen drwy'r sir, fel rhan o'i waith o ran datblygu 'llwybrau twristiaid'. Gallai'r Grŵp drafod gyda chynghorau dinas, tref a chymuned hefyd beth yw manteision datblygu a phrynu arwyddion a oedd â brandio cyson. Byddai'r gweithgor hwn yn edrych ar strategaeth arwyddion yn unig, gan gynnwys rhoi symbolau hawdd eu hadnabod ac ati arnynt, ar gyfer rhwydwaith priffyrdd y sir, ni fyddai'n archwilio arwyddion cefnffyrdd gan mai cyfrifoldeb LIC oeddent. Pan oedd wedi'i sefydlu, rhagwelwyd y byddai cyfle i'r Gweithgor weithio gydag awdurdodau cyfagos eraill gyda bwriad o sicrhau y byddai 'llwybrau twristiaeth' pob awdurdod yn ategu llwybrau ei gilydd a'r rhai a nodwyd fel rhan o gynnis Ffordd Gogledd Cymru i gyd;
- er nad oedd gan y Cyngor ei 'Siop Arwyddion' ei hun bellach, gallai gaffael arwyddion ffordd ar gyfradd gystadleuol, er byddai rhywfaint o oedi o ran amser darparu;
- roedd y Gweithgor oedd â'r dasg o ddatblygu arwyddion twristiaeth yr A55 ar gyfer atyniadau Dyffryn Clwyd wedi ailgyfarfod yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd gyda bwriad o ddatblygu'r prosiect. Roedd rhywfaint o ddiffyg o ran y cyllid a oedd ar gael ar gyfer yr arwyddion, ac roedd yr Aelod Cynulliad (AC) yn ceisio datrys hyn drwy LIC;
- er bod twristiaid yn dibynnu fwyfwy ar wybodaeth ddigidol am le i ymweld ag ef ac ati, byddai angen dogfennau papur o hyd fel mapiau a chanllawiau; ac
- nid oedd cydbwysedd gwleidyddol yn ofyniad i weithgor, er byddai'n fuddiol pe bai'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r sir, gan ystyried cylch gwaith y grŵp arfaethedig.

Gwnaeth y Pwyllgor gytuno ei bod yn hynod o bwysig i dwristiaid gael eu cyfeirio at bob ardal o'r sir i sicrhau bod economi gyfan y sir yn cael cyfle i fanteisio ar eu grym gwario. Roedd Aelodau o'r farn y dylid gwahodd cynrychiolydd o LIC i ymuno â

Gweithgor Strategaeth Arwyddion Twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych i sicrhau bod cynigion y Grŵp yn ategu strategaeth LIC ei hun.

Gan ymateb i bryderon aelodau am allu busnesau lleol bach ac awdurdodau lleol i brynu gofod hysbysebu 'digidol' ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu busnesau o gymharu â chwmnïau mawr cenedlaethol a rhyngwladol, dywedodd swyddogion y gallai busnesau restru eu hunain ar Google a Google Maps am ddim. Byddai'n fater o addysgu busnesau am sut i restru eu busnes a beth oedd ganddynt i'w gynnig. Dull arall effeithiol a chost isel o hyrwyddo busnes ac ati fyddai drwy 'flog', gan fod blogwyr yn denu cynulleidfa rhyngwladol eang. Roedd technoleg yn datblygu bob dydd ac roedd yn darparu cyfleoedd gwych i dynnu sylw twristiaid at wasanaethau a busnesau.

Cytunodd Swyddogion i holi a oedd Deddf Llywodraeth Leol yn rhagnodi pwy ddylai ariannu neu gyfrannu at gostau arwyddion ffordd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

Penderfynodd y Pwyllgor: - yn amodol ar y sylwadau uchod

- (i) gefnogi parhad y gwaith i ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych;**
- (ii) cadarnhau, fel rhan o'i ystyriaeth, ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn Atodiad A;**
- (iii) argymhell bod y gweithgor swyddogion ac aelodau etholedig arfaethedig sydd i gael ei sefydlu i ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych yn cynnwys 12 aelod etholedig, dau yn cynrychioli pob Grŵp Ardal Aelodau, a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru (LIC), a swyddogion perthnasol; a**
- (iv) bod adroddiad am gynnydd y Gweithgor o ran datblygu strategaeth arwyddion twristiaeth, gan gynnwys gwybodaeth am ffynonellau ariannu posibl ac amserlen a ragwelir ar gyfer darparu'r prosiect, yn cael ei gyflwyno'r Pwyllgor ymhen 12 mis.**

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd eisoes) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- ail-gadarnhawyd y ddwy eitem ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a chytunwyd i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i'r cyfarfod hwnnw;
- cytunwyd i gynnwys adroddiad diweddar am Gredyd Cynhwysol a Strategaeth Arwyddion Twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor ymhen 12 mis;
- cyfeiriwyd at friff gwybodaeth y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, ynghyd â gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn

Felly:

Penderfynodd y Pwyllgor: - gymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar yr uchod

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Adroddodd gynrychiolwyr y Pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn -

Roedd y Cyngorydd Huw Williams wedi mynychu'r Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer Cyllid, a nododd fod adroddiad diweddarau wedi ei gynnwys yn y briff diweddarau gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25 p.m.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	12 Gorffennaf 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd/ Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd
Awdur(on) yr Adroddiad:	Rheolwr Uned Waith a Strydwedd Rheolwr Strydwedd (y Gogledd)
Teitl:	Diweddariad ynglŷn â rheoli mynwentydd Cyngor Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i Aelodau am y lleoedd claddu sydd ar ôl ym mynwentydd y cyngor, ac mae'n amlinellu ardaloedd sy'n wynebu risg o ran diffyg lleoedd claddu yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hefyd yn cwmpasu cynnydd arfaethedig mewn ffioedd mynwentydd ac yn rhoi amlinelliad o'r drefn gynnal a chadw bresennol (a'r polisiau rheoli) ar gyfer pob mynwent a reolir gan y cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Rhoi gwybodaeth i Aelodau am y lleoedd claddu sydd ar ôl ym mynwentydd y cyngor ac amlinellu'r safonau cynnal a chadw presennol a'r polisiau rheoli sydd mewn lle ar gyfer ein mynwentydd. Atodir dadansoddiad o nifer y blynyddoedd sydd ar ôl i gladdedigaethau newydd ym mhob mynwent yn **Atodiad 1**. Atodir cynnig i gynyddu ffioedd claddu er mwyn gwneud ffioedd Sir Ddinbych yn gydnaws â ffioedd awdurdodau cyfagos yn **Atodiad 2**. Atodir manyleb cynnal a chadw ein mynwentydd yn **Atodiad 3**. Atodir ein polisiau presennol mewn perthynas â rheoli mynwentydd yn **Atodiad 4**. Atodir astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd yn 2004 er mwyn archwilio'r ddarpariaeth mynwentydd yn y dyfodol yn **Atodiad 5**.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1. ystyried p'un a ddylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Craffu er mwyn ystyried lleoedd claddu ym mynwentydd y cyngor yn y dyfodol;
- 3.2. cadarnhau ei gefnogaeth ar gyfer y polisiau presennol sy'n gysylltiedig â rheoli mynwentydd y cyngor; a
- 3.3. chefnogi'r cynigion i gynyddu ffioedd claddu er mwyn gwneud ffioedd Sir Ddinbych yn gydnaws â ffioedd awdurdodau cyfagos.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Cafodd mynwentydd presennol y cyngor eu hetifeddu yn ystod ad-drefniant llywodraeth leol 1996. Nid oes gan y cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu ei fynwentydd ei hun ond mae ganddo rymoedd i wneud hynny os yw'n dewis o dan ddeddfwriaeth bresennol. Yn 2004, ystyriodd gweithgor Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd y posibilrwydd o ddarparu mynwent newydd. Roedd y gweithgor craffu wedi nodi dau safle posibl ar gyfer mynwent newydd ac roedd cyfanswm y costau gwaith yn y ddau safle yn fwy na £950,000 yr un ar lefelau prisiau 2004. Nid oedd yr amcangyfrifon yn cynnwys costau caffael y tir. Ni aethpwyd â'r opsiwn i ddatblygu mynwentydd newydd ar y pryd, yn bennaf oherwydd costau.
- 4.2. Crynhoir nifer y lleoedd claddu sydd ar ôl ym mynwentydd y cyngor (fel ym mis Mai 2018) yn **Atodiad 1**, ynghyd ag amcangyfrif o gyfraddau claddu'r dyfodol. Mae'r tuedd hirdymor tuag at amlosgi wedi cael ei gymryd i ystyriaeth. Ar hyn o bryd nid oes problem gyda nifer y lleoedd claddu yn gyffredinol (h.y. ledled y sir gyfan), ond yn y tymor canolig (5 i 10 mlynedd) bydd nifer o fynwentydd yn llenwi eu holl leoedd ar gyfer claddedigaethau newydd.
- 4.3. Mae un o fynwentydd mwyaf y Cyngor (y Rhyl) bellach wedi cau i gladdedigaethau newydd ac mae'n debygol o arwain at gost sylweddol i'r awdurdod ddarparu mynwentydd i drefi unigol wrth i'r mynwentydd presennol lenwi, ac nid oes tir addas ar gael bob amser yn yr ardaloedd gofynnol.
- 4.4. Mae dadansoddiad o'r ffigyrau manwl yn dangos mai mynwent Rhuddlan fydd y nesaf i lenwi a hynny mewn oddeutu 8 mlynedd, ac mae'n debyg mai mynwent Rhuthun fydd y nesaf ar ôl hynny. Pan fydd y mynwentydd hyn yn llawn, bydd mwy o alw am fynwentydd eraill y cyngor.
- 4.5. Ym Mhrestatyn a Llangollen, mae llawer o'r lleoedd claddu sydd ar ôl ar dir sy'n cael ei ddefnyddio i bori a/neu sy'n cynnwys caeau heb eu datblygu ar hyn o bryd. Gan hynny byddai angen creu seilwaith newydd er mwyn datblygu'r ardaloedd hyn i ddarparu lleoedd claddu ychwanegol (e.e. gwaith draenio ac adeiladu llwybrau newydd). Fodd bynnag, byddai maint y gwaith hwn yn llawer llai na datblygu safleoedd newydd sbon. Bydd angen gwneud mwy o waith er mwyn pennu costau datblygu'r ddwy ardal bresennol i gyrraedd y safon angenrheidiol. Yn **Atodiad 5**, atodir astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd yn 2004 er mwyn archwilio i ddarpariaeth mynwentydd yn y dyfodol.
- 4.6. Mae angen adolygu ffioedd claddu'r cyngor er mwyn eu gwneud yn gydnaws â ffioedd awdurdodau cyfagos. Mae'n bwysig cynnal cyfraddau claddu Sir Ddinbych am bris sy'n cystadlu ag awdurdodau cyfagos, er mwyn cynnal incwm ar lefel resymol ac er mwyn sicrhau nad yw pobl yn gweld claddu yn Sir Ddinbych fel opsiwn rad a fyddai'n arwain at gynnydd yn y galw am nifer ein lleoedd claddu. Amlinellir cynigion ar gyfer ffioedd newydd yn **Atodiad 2**.
- 4.7. Mae gwaith cynnal a chadw'r glaswellt ym mynwentydd Sir Ddinbych yn cael ei wneud gan gontractwyr ar hyn o bryd. Y fanyleb ar gyfer pob un o'r saith mynwent yw bod y glaswellt yn cael ei dorri i uchder rhwng 20mm a 40mm, deg gwaith y flwyddyn bob 3 wythnos fel yr amlinellir yn y fanyleb gynnal a chadw yn **Atodiad 3**.

4.8. Mae ein polisiau presennol mewn perthynas â rheoli ein mynwentydd yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau Mynwentydd, fel yr amlinellir yn **Atodiad 4**.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Ni cheisir penderfyniad ac nid yw rheoli mynwentydd yn cyfrannu'n benodol at ddarparu'r Cynllun Corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys unrhyw gynigion a fyddai'n golygu costau ychwanegol i'r gyllideb wasanaethau. Fodd bynnag, byddai modd cynhyrchu incwm ychwanegol pe bai'r awgrym i gynyddu ffioedd claddu yn cael eu gweithredu. Bydd cost ychwanegol ynghlwm wrth unrhyw waith i ddatblygu safleoedd ychwanegol (ni wyddom y gwerth ar hyn o bryd). Ni fydd unrhyw effaith ar wasanaethau eraill. Gellir gweld cost fynegol, yn seiliedig ar asesiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2004 yn **Atodiad 5**.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni cheisir unrhyw benderfyniad drwy'r adroddiad hwn felly ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1. Pwrpas pennaf yr adroddiad hwn yw ymgynghori â'r Gwasanaeth Archwilio.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n bwysig fod gwasanaethau yn adolygu eu ffioedd a'u costau yn rheolaidd a, ble mae hynny'n briodol ac yn bosib, yn adennill costau darparu gwasanaeth yn gyfangwbl, yn unol â pholisi corfforaethol y cyngor,

